

## Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

---

Lleoliad:  
**Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

---

Dyddiad:  
**Dydd Mercher, 16 Hydref 2013**

---

Amser:  
**09:15**

---

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Marc Wyn Jones**  
Clerc y Pwyllgor  
029 2089 8505  
[PwyllgorPPI@cymru.gov.uk](mailto:PwyllgorPPI@cymru.gov.uk)

---

### Agenda

---

**Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod – 09.15 – 09.30**

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (09.30)**

**2 Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013–14:  
Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog (09.30 – 10.30) (Tudalennau 1 - 10)**

CYP(4)–26–13 – Papur 1

Jeff Cuthbert, y Gweinidog Cymunedau a Threchgu Tlodi  
Vaughan Gething, y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi  
Peter Jones, Pennaeth Cyllid  
Martin Swain, Dirprwy Gyfarwyddwr Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd

**3 Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013–14:  
Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog (10.30 – 11.30) (Tudalennau 11 - 31)**

CYP(4)–26–13 – Papur 2

Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau  
Ken Skates, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg  
Owen Evans, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Adran Addysg a Sgiliau

Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Dros Dro, Isadeiledd, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr

**4 Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14: Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog (11.30 - 12.30)** (Tudalennau 32 - 44)

CYP(4)-26-13 - Papur 3

Mark Drakeford, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol  
Mark Osland, Dirprwy Cyfarwyddwr Cyllid, CGIGC  
David Sissling, Cyfarwyddwr Gyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**5 Papurau i'w nodi** (Tudalennau 45 - 82)

CYP(4)-26-13 - Papur 4

Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch yr Adroddiad ar y Gyllideb gan y Cynghorydd i'r Pwyllgor

## Papur 1

### Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

### Papur Tystiolaeth – Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft Plant a Phobl Ifanc 2014-15.

#### 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu sylwadau a gwybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch cynigion cyllidebol ar gyfer rhaglenni Plant a Phobl Ifanc yn y dyfodol a amlinellir yn y Gyllideb Ddrafft a osodwyd ar 8 Hydref 2013.

#### 2. Cefndir

O'i gymharu â'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd adeg y Gyllideb Derfynol 2013-14, fel y'u hailddatganwyd yn sgil yr ad-drefnu ym Mawrth 2013, mae cyfanswm y dyraniad DEL ar gyfer MEG Cymunedau a Threchu Tlodi (CTP) wedi cynyddu £0.4m yn 2014-15 i £212.7m

Ceir gostyngiad net yn y DEL Adnoddau o £3.6m yn 2014-15 i £192.2m. Y cynllun dangosol ar gyfer DEL Adnoddau 2015-16, a gyhoeddir am y tro cyntaf yw £191.5m.

Ceir cynnydd net i'r gyllideb cyfalaf o £4m yn 2014-15 i £20.5m, yn sgil dyraniad i gefnogi'r blaenoriaethau yn y WIIP i ariannu lleoliadau Dechrau'n Deg. Y cynllun dangosol ar gyfer DEL Cyfalaf 2015-16, a gyhoeddir am y tro cyntaf, yw £14.5m.

Mae'r Tablau Ariannol Cryno canlynol yn dangos yr effaith gyffredinol ar gyllideb llinell sylfaen Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Cymunedau a Threchu Tlodi.

#### Tablau Ariannol Cryno:

<b>MEG CTP</b>	2013-14 Cyllideb Atodol  £000	2014-15 Cynlluniau dangosol Cyllideb Derfynol wedi'i hailddatgan £000	2014-15 Newidiadau  £000	2014-15 Cynlluniau newydd Cyllideb Ddrafft  £000	2015-16 Cynlluniau newydd Cyllideb Ddrafft  £000
DEL Adnoddau	187,556	195,871	-3,625	192,246	191,534
DEL Cyfalaf	24,450	16,450	4,000	20,450	14,450
Llinell Sylfaen DEL	212,006	212,321	375	212,696	205,984

O fewn MEG CTP, crynhoir yr effaith benodol ar y gyllideb Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd (CYP&F) yn y tabl isod.

CYP&F	2013-14. Cyllideb Atodol  £000	2014-15 Cynlluniau dangosol wedi'u hailddatgan Cyllideb Derfynol £000	2014-15 Newidiadau  £000	2014-15 Cynlluniau newydd Cyllideb Ddrafft  £000	2015-16 Cynlluniau newydd Cyllideb Ddrafft  £000
DEL Adnoddau	117,538	127,538	-1,925	125,613	127,413
DEL Cyfalaf	12,000	4,000	4,000	8,000	2,000
Llinell Sylfaen DEL	129,538	131,538	2,075	133,613	129,413

### 3. Trosolwg o'r Gyllideb

Nod cyffredinol yr Adran Cymunedau a Threchgu Tlodi yw uno gwaith Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid wrth drechu tlodi a sicrhau dyfodol tecach i gymunedau, teuluoedd ac unigolion.

Mae gan yr Adran nifer o flaenoriaethau penodol sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi cyflenwi'r Rhaglen Lywodraethu. Mae llawer o'r blaenoriaethau hyn hefyd yn cael effaith uniongyrchol ar blant a phobl ifanc:

- cefnogi teuluoedd a phlant, yn arbennig trwy Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf;
- trechu tlodi a hyrwyddo cadernid cymunedol gan gynnwys Cymunedau'n Gyntaf;
- lliniaru effaith diwygio lles;
- cynyddu cynhwysiant ariannol a digidol, gan gynnwys y Gronfa Cymorth Dewisol ac Undebau Credyd;
- cynyddu'r ddarpariaeth gofal plant a'r ddarpariaeth chwarae fforddiadwy o safon sydd ar gael;
- hyrwyddo hawliau a chyfranogiad plant a phobl ifanc
- hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant;
- cefnogi datblygu'r Trydydd Sector a gwella ei berthynas strategol â'r Llywodraeth; a
- ymgorffori datblygu cynaliadwy fel egwyddor drefniadol ganolog yng ngwaith Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid.
- 

### 4. Y Rhaglen Lywodraethu

Ar draws y portffolio Cymunedau a Threchgu Tlodi, rydym yn gweithio i **atal tlodi**, i helpu pobl allan o dlodi a helpu i adeiladu cymunedau cadarn lle y gall teuluoedd ac unigolion gael gafael ar y cymorth y mae arnynt ei angen. Rydym yn helpu plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn cefnogi teuluoedd; yn cymryd camau i

wneud cydraddoldeb, hawliau a datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o waith Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus; ac yn cefnogi'r trydydd sector i chwarae ei ran wrth sicrhau'r canlyniadau yr ydym yn gweithio tuag atynt. Fel rhan o ganlyniad ein hymgyngoriad ar y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru yn 2013, rhagwelwn y bydd mwy o ganolbwynt ar gefnogi'r sector i fod yn fwy cynaliadwy, gwella cydweithio a chydweithredu, a sicrhau bod y cyllid a ddarparwn yn cael cymaint o effaith â phosibl.

Yn benodol, mae'r gyllideb Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn cefnogi nifer o raglenni allweddol gan gynnwys Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a gofal plant. Yn 2014-15 byddwn yn buddsoddi £125m (gwariant refeniw) mewn cefnogi Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yng Nghymru.

Amgaeir manylion y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) yn Atodiad 1. Yn sgil y newidiadau i bortffolios y Gweinidogion ym mis Mawrth, cafodd y BELs hyn eu trosglwyddo o MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda'r cyllidebau Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadw eu helfennau o arian plant a theuluoedd.

## Dechrau'n Deg

Mae dyblu nifer y plant sy'n elwa ar gynllun **Dechrau'n Deg yn un o ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu o dan 'Pump am Ddyfodol Tecach'** a buddsoddiad wedi'i dargedu ydyw i gefnogi plant a'u teuluoedd yn y blynyddoedd cynnar. Mae tystiolaeth ryngwladol yn cefnogi'r dull hwn fel ffordd effeithiol o wella cyfleoedd bywyd ein plant mwyaf difreintiedig.

Trwy gynllun Dechrau'n Deg byddwn yn buddsoddi refeniw o £72.1m a chyfalaf o £8m yn 2014-15 i gefnogi **gofal plant** o safon uchel ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Rydym hefyd yn dyrannu refeniw ychwanegol o £5m yn 2015-16 er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiad i **ddyblu nifer y plant sy'n elwa ar Dechrau'n Deg**. Mae'r buddsoddiad a nodir uchod yn cynnwys arian cyfalaf ychwanegol o £4m yn 2014-15 (£2m yn 2015-16).

Bydd gwella cyfleoedd bywyd plant o gefndiroedd **cymdeithasol-economaidd** anodd yn cael effaith hirdymor gadarnhaol ar yr economi, nid yn unig oherwydd y canlyniadau i blant, ond hefyd mewn perthynas â **gwario ataliol** a'r gostyngiad cysylltiedig yn yr angen am wasanaethau mwy dwys a drud y byddai angen eu darparu fel arall. Gall y rhaglen arwain hefyd at well cydlyniant cymdeithasol a datblygu cymunedol.

Mae gofal plant o safon uchel yn y blynyddoedd cynnar a mynychu lleoliadau o safon ragorol yn cael dylanwad o bwys ar ddatblygiad plentyn, yn enwedig yn achos plant sy'n dod o gefndir difreintiedig. Erbyn diwedd 2014-15 bydd dros 32,000 o blant rhwng 2 a 3 oed yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn elwa ar ddarpariaeth Dechrau'n Deg. Yn ôl y dystiolaeth werthuso gynnwys mae datblygiad cymdeithasol plant sy'n elwa ar Dechrau'n Deg yn gwella ac maent t yn fwy parod am yr ysgol ac yn barod i ddysgu.

Gwyddom hefyd fod Dechrau'n Deg yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad gwybyddol plant. Rydym hefyd yn gweld gwelliant o ran cyrraedd y cerrig milltir priodol rhwng 2 a 3 oed. Rydym wedi ymrwymo, trwy'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, i barhau i gynyddu lefelau gwelliant rhwng 2 a 3 oed yn y rhaglen. Byddwn hefyd yn parhau i roi blaenoriaeth i ennill sgiliau iaith yn gynnar gan fod hyn yn allweddol i ddatblygiad gwybyddol ac i wella lefelau cyffredinol llythrennedd a rhifedd.

Mae Dechrau'n Deg hefyd yn gyflogwr o bwys. Ar hyn o bryd mae dros 1,000 o bobl wedi'u cyflogi'n uniongyrchol i gyflenwi'r rhaglen. Bydd cynnydd pellach o 850 yn y ffigur hwn yn ystod ein gwaith i ehangu'r rhaglen. Mae'r swyddi hyn yn amrywio o **ofal plant** lefel mynediad i rolau proffesiynol medrus iawn ym maes iechyd a **chefnogi teuluoedd**.

Mae cefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig wrth wraidd rhaglen Dechrau'n Deg. Mae buddsoddiad yn cael ei dargedu yn y cymunedau sydd â'r gyfran uchaf o aelwydydd gyda phlant 0-4 oed sydd ar fudd-daliadau incwm. Yn benodol byddwn yn parhau, trwy Dechrau'n Deg, i hybu'r berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn a phwysigrwydd rhianta cadarnhaol.

### **Teuluoedd yn Gyntaf**

Rhaglen arloesol yw hon sy'n annog pob awdurdod lleol i ddatblygu systemau aml-asiantaeth effeithiol a chymorth i deuluoedd, gyda phwyslais clir ar **atal ac ymyrraeth gynnar** i gefnogi teuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn **tlodi**. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod y tymor Cynulliad hwn a byddwn yn buddsoddi £46.9m yn 2014-15.

Mae'r rhaglen yn ymateb allweddol i **Strategaeth** Llywodraeth Cymru ar **Diodi Plant** ac yn cyfrannu at amcanion y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn sylweddol. Mae cynlluniau cyflenwi lleol yn blaenoriaethu camau gweithredu a chymorth i leihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd di-waith; gwella sgiliau rhieni a gofawyr a phobl ifanc sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel; a lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yn y canlyniadau iechyd, addysg ac economaidd i blant sy'n dod o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd is. Bydd prosiectau'n cefnogi ystod o fentrau gan gynnwys targedu pobl 16-19 oed sydd wedi ymddieithrio o addysg a hyfforddiant a darparu cymorth personol i ddatblygu eu cyflogadwyedd.

O safbwynt cyflawniad addysgol, mae Teuluoedd yn Gyntaf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol flaenoriaethu cymorth er mwyn sicrhau bod plant, pobl ifanc ac yn wir oedolion mewn teuluoedd yn gallu cyflawni eu potensial. Byddwn yn defnyddio dangosyddion craidd megis nifer y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n cyrraedd dangosydd y Cyfnod Sylfaen, sy'n cyrraedd y dangosydd pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 ac sy'n cyrraedd y Trothwy lefel 2 mewn TGAU. Bydd prosiectau'n canolbwyntio ar y teulu'n bennaf, a byddant hefyd, er

enghraifft, yn targedu pobl sydd mewn perygl o ymadael ag addysg trwy sicrhau bod lefelau presenoldeb ac ymgysylltu yn well.

Mae'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf hefyd yn sbardun o bwys wrth ddatblygu 'Tîm o Amgylch y Teulu' aml-asiantaeth. Cymru yw'r unig wlad yn y DU ar hyn o bryd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ardal pob awdurdod lleol ddatblygu ac ymgorffori 'Tîm o Amgylch y Teulu' yn eu gwaith.

Mae **Cefnogi plant, teuluoedd a chymunedau** difreintiedig yn sylfaenol i amcanion Teuluoedd yn Gyntaf fel rhaglen Cymru gyfan. Mae plentyn yn gwneud yn well pan fydd yn byw mewn cartref diogel o safon uchel, a lle mae ganddo berthynas agos, gadarnhaol a diogel â'i mam, â'i dad, neu ag oedolyn allweddol. Nod Teuluoedd yn Gyntaf yw rhoi cymorth priodol i deuluoedd i sicrhau eu bod yn hunanddigonol ac yn gadarn. Byddwn yn buddsoddi mewn gwasanaethau cymorth i deuluoedd a gwasanaethau uniongyrchol sy'n galluogi plant i ddatblygu ac sy'n rhoi i rieni'r cymorth y mae arnynt ei angen i ymdopi â sefyllfaoedd teuluol anodd, eu helpu i fynd i'r afael â materion a achosir gan tlodi a sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth a'r cyngor iawn pan fydd arnynt eu hangen. Bydd prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf, er enghraifft, yn nodi teuluoedd sydd fwyaf tebygol o aros mewn tlodi hirdymor ac yn targedu cymorth cynnar a pharhaus i'r teulu cyfan, gwella sgiliau, datblygu dyhead a gwella lefelau incwm aelwydydd.

### **Gofal Plant a Chwarae**

Mae'r ddarpariaeth yn cael ei chynnal yn £3m yn 2014-15 o gofio ei phwysigrwydd fel sbardun polisi o bwys mewn perthynas â thwf a swyddi ac o safbwynt trechu tlodi. Mae gwerthusiadau olynol wedi casglu bod argaeledd gofal plant fforddiadwy o safon yn hanfodol i gefnogi pobl y mae angen iddynt weithio neu ennill sgiliau i'w galluogi i weithio.

Cydnabyddir yn y **Rhaglen Lywodraethu**, y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi a Chynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant fod datblygu gofal plant fforddiadwy, hygyrch o safon uchel, yn allweddol i sicrhau bod rhieni'n gallu cael mynediad i hyfforddiant a gwaith. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd o dan y cylch nesaf o raglenni Ewropeaidd (2014-2020) i weithredu yn y maes hwn fel rhan o'n nod o hybu cynhwysiant cymdeithasol a **trechu tlodi**.

Rydym yn cefnogi'r **sector gofal plant** trwy helpu cyrff gofal plant cenedlaethol a darparu cymorth ariannol i'r awdurdodau lleol i hybu a datblygu gofal plant cofleidiol y tu allan i'r ysgol. Yn 2012-13 roedd rhyw 4,500 o leoedd gofal plant ac 800 o leoedd mewn clybiau gwyliau'n cael eu cynnal gan y rhaglen y tu allan i ysgolion. Byddwn hefyd yn cefnogi rhai o'r blaenoriaethau a danlinellwyd yn *Adeiladu Dyfodol mwy Disglair*, Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

O safbwynt cyflawniad addysgol, gwyddom hefyd fod yr hyn y mae rhieni'n ei wneud gyda'u plant gartref yn cael effaith sylweddol ac y gall ei ddylanwad fod yn gryfach na galwedigaeth, addysg neu incwm y rhiant. Byddwn hefyd yn parhau i

gefnogi rhaglenni **laith a Chwarae** sy'n anelu at ddatblygu rhyngweithiad a buddsoddiad y rhiant mewn dysgu yn y cartref.

Cydnabyddwn bwysigrwydd sicrhau bod gan blant a phobl ifanc lais a'n bod yn gwranddo arnynt. Byddwn yn parhau i gefnogi gweithredu'r **Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc** a gweithredu'r **CCUHP** yng Nghymru. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi MEIC - y **Llinell Gymorth Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc** a byddwn yn cynyddu £0.2m ar y gyllideb Eiriolaeth yn 2014-15 a 2015-16.

Mae gostyngiad o £0.5m wedi'i gymhwyso i'r gyllideb Cymorth i **Hawliau Plant** yn 2014-15 a hynny'n bennaf o ganlyniad i arian heb ei ddyrannu yn deillio o brosiectau cynharach sydd bellach wedi dod i ben. Nid oedd yr arian hwn wedi cael ei glustnodi ar gyfer prosiectau'r dyfodol. Ni fydd y gostyngiad hwn yn amharu ar ein gallu i barhau i weithredu'r **Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc** a'r dyletswyddau ar y Gweinidogion i flaenoriaethu hawliau plant wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â pholisi a deddfwriaeth. Bydd gostyngiadau pellach o £0.4m yn 2015-16 wrth i ni anelu at gydgyfnerthu rhai o'n cynlluniau grant.

Caiff cyllideb **Comisiynydd Plant Cymru** ei chynnal yn £1.7m yn 2014-15 a 2015-16. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu cynrychioli gan y Comisiynydd.

## 5. Deddfwriaeth

Cydnabyddwn bwysigrwydd sicrhau bod gan blant a phobl ifanc lais a'n bod yn gwranddo arnynt. Byddwn yn parhau i gefnogi gweithredu'r **Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc** a gweithredu'r **CCUHP** yng Nghymru. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi MEIC - y **Llinell Gymorth Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc** a byddwn yn cynyddu £0.2m ar y gyllideb Eiriolaeth yn 2014-15 a 2015-16.

Mae gostyngiad o £0.5m wedi'i gymhwyso i'r gyllideb Cymorth i **Hawliau Plant** yn 2014-15 a hynny'n bennaf o ganlyniad i arian heb ei ddyrannu yn deillio o brosiectau cynharach sydd bellach wedi dod i ben. Nid oedd yr arian hwn wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Ni fydd y gostyngiad hwn yn amharu ar ein gallu i barhau i weithredu **Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)** a'r dyletswyddau ar y Gweinidogion i flaenoriaethu hawliau plant wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â pholisi a deddfwriaeth. Bydd gostyngiadau pellach o £0.4m yn 2015-16 wrth i ni anelu at gydgyfnerthu rhai o'n cynlluniau grant.

Mae'n werth nodi hefyd fod y Mesur yn gymwys i bob Gweinidog ac i bob polisi a deddfwriaeth newydd neu ddiwygiedig. Felly, mae'r buddsoddiad ar gyfer gweithredu hawliau plant yn llawer mwy ac yn effeithio ar gyllidebau ar draws y llywodraeth gyfan. Cafodd adroddiad ar gydymffurfio â'r Mesur ei gyhoeddi yn Ionawr 2013 ac mae'n nodi'r effaith y mae'r Mesur yn ei chael a sut y mae'n ymdreiddio i holl fusnes, deddfwriaeth, cyfarwyddiadau a chanllawiau'r llywodraeth, ac yn ei dro i wasanaethau lleol. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar effaith y



Mesur ac rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi adroddiad cydymffurfio pellach ym mis Gorffennaf 2016.

Yn ehangach, rydym yn gweithio hefyd ar Fil Cenedlaethau'r Dyfodol. Diben y Bil yw galluogi'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus i wneud penderfyniadau gwell, gan ganolbwyntio ar yr effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae egwyddor meddwl hirdymor yn un o elfennau allweddol datblygu cynaliadwy. Mae ystyried y tymor hir yn rhoi canolbwynt ar **atal** a'r ymyriadau cynnar sy'n gallu arwain at fanteision hirdymor i unigolion a chymunedau.

## 6. Cyfalaf

Yn 2014-15 byddwn yn darparu £4 miliwn pellach mewn cyfalaf i sefydlu'r seilwaith angenrheidiol i barhau i gyflawni ein hymrwymiad i ddyblu nifer y plant sy'n elwa ar Dechrau'n Deg. Erbyn diwedd 2014-15 byddwn wedi buddsoddi dros £25 miliwn mewn tua 165 o brosiectau unigol, gan ddarparu lleoliadau am ofal plant o safon uchel, rhaglenni cymorth rianta a thimau cymorth aml-asiantaeth. Bydd y buddsoddiad hwn yn mynd tuag at ddatblygu'r 'seilwaith cymdeithasol' y cyfeirir ato yn ein Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru trwy weithio yng nghanol ein cymunedau mwyaf difreintiedig a gwella llesiant a chyfleoedd bywyd plant o dan 4 oed.

## 7. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

### Dechrau'n Deg

Dechrau'n Deg yw un o ymrwymadau'r **Rhaglen Lywodraethu o dan 'Pump am Ddyfodol Tecach'** a buddsoddiad wedi'i dargedu ydyw i gefnogi plant a'u teuluoedd yn y blynyddoedd cynnar. Mae tystiolaeth ryngwladol yn cefnogi'r dull hwn fel ffordd effeithiol o wella cyfleoedd bywyd ein plant mwyaf difreintiedig.

Bydd cyllideb Dechrau'n Deg yn gostwng £0.9m yn 2014-15. Er hynny, nid oes unrhyw ostyngiad yn y grant Dechrau'n Deg a ddyrennir i'r awdurdodau lleol a byddwn yn parhau i ehangu rhaglen Dechrau'n Deg yn unol â'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gyrraedd 36,000 o blant a'u teuluoedd erbyn diwedd y tymor Cynulliad hwn. Daw'r gostyngiad yn y gyllideb o elfennau costau canolog ac mae'n cynnwys arbedion mewn costau gweinyddol o £0.4m a mabwysiadu ymagwedd fwy costeffeithiol at offer asesu, gan ryddhau £0.5m. Nid oes unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol ar gydraddoldeb o ganlyniad i'r penderfyniad hwn gan nad yw'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau i bobl.

Yn 2015-16, bydd BEL Dechrau'n Deg yn cynyddu £4.8m i adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ehangu Dechrau'n Deg. O safbwynt cyflawniad addysgol, mae gan ofal plant o safon uchel yn y blynyddoedd cynnar a mynychu lleoliadau o safon ragorol ddylanwad o bwys ar ddatblygiad plentyn, yn arbennig yn achos blant sy'n dod o gefndir difreintiedig. Yn ôl y dystiolaeth werthuso gynnar mae datblygiad

cymdeithasol plant sy'n elwa ar Dechrau'n Deg yn gwella ac maent yn fwy parod am yr ysgol ac yn barod i ddysgu. Anelir y buddsoddiad at y cymunedau sydd â'r gyfran uchaf o aelwydydd sydd â phlant 0-4 oed sydd ar fudd-daliadau incwm.

## **Teuluoedd yn Gyntaf**

Rhaglen sy'n annog pob awdurdod lleol i ddatblygu systemau aml-asiantaeth effeithiol a chymorth i deuluoedd, gyda phwyslais clir ar **atal ac ymyrraeth gynnar**, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn **tlodi** yw Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'r rhaglen yn ymateb allweddol i Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru ac yn cyfrannu'n sylweddol at amcanion y Cynllun Trechu Tlodi.

Rydym wedi ymrwymo i gynnal y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod y tymor Cynulliad hwn a byddwn yn buddsoddi £46.9m yn 2014-15. Mae hwn yn ostyngiad o £0.75m y mae ei angen yn 2014-15 ond caiff ei dalu heb unrhyw ostyngiad i'r grant Teuluoedd yn Gyntaf. Yn arbennig, mae hyn yn golygu y bydd y **cymorth wedi'i neilltuo i deuluoedd â phlant anabl** yn parhau ar lefelau cynlluniedig. Gellir talu'r gostyngiadau yn 2014-15 o wariant cynlluniedig ar feysydd polisi sydd heb gael eu datblygu'n llawn, neu gellir eu gohirio nes y bydd y gyllideb ar gael.

Byddwn yn dwyn ymlaen y gostyngiad yn y gyllideb Teuluoedd o £0.75m o 2014-15 ac fe welwn ostyngiad o £2.3m yn 2015/16. Deuir o hyd i hyn trwy leihau'r dyraniadau grant i'r awdurdodau lleol ar gyfer grant Teuluoedd yn Gyntaf. Mae hyn yn debygol o arwain at nifer o ostyngiadau mewn gwasanaethau i blant a theuluoedd, naill ai trwy ostyngiadau mewn adnodd Tîm o Amgylch y Teulu, cwtogi ar brosiectau penodol, neu roi terfyn ar rai prosiectau penodol yn llwyr. Gan fod Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i gynllunio i dargedu teuluoedd yn benodol lle mae tlodi'n fater o bwys, mae'n debygol y bydd effaith ar unigolion a theuluoedd o'r grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. Rydym yn datblygu methodoleg fwy manwl ar gyfer casglu data er mwyn darparu asesiad gwell o'r effaith a fydd yn caniatáu i ni gynllunio camau lliniaru.

Bydd angen hefyd i ni leihau £0.3m ar y swm sydd ar gael trwy Grant Cyrff Plant a Theuluoedd yn 2015-16. Gallai hyn effeithio ar allu rhai o gyrff y trydydd sector i gael arian. Yn y cyfamser byddwn yn edrych ar gamau i liniaru'r effaith.

## **Gofal Plant a Chwarae**

Rydym yn amddiffyn y gyllideb Gofal Plant a Chwarae yn 2014-15 sy'n dangos ein hymrwymiad i fuddsoddi mewn cymorth ar gyfer gofal plant ac i gefnogi datblygu'r sector gofal plant, sy'n allweddol o ran o sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad i hyfforddiant a/neu gyflogaeth a hefyd fod plant yn elwa ar brofiadau gofal plant o safon.

Er hynny, ceir gostyngiad o £0.3m yn 2015-16. Daw hyn o swm o £0.1 miliwn sydd ar gael am fod arian prosiect yn dod i ben yn 2014/15 a thrwy beidio ag ymrwymo cronfeydd i unrhyw brosiectau pellach. Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi'r

gorau i roi cymorth ariannol (£0.2 miliwn) ar gyfer gwiriadau troseddol i weithwyr gofal plant. Bach iawn o effaith y bydd hyn yn ei chael yn sgil cyflwyno gwiriadau CRB cludadwy. Ni chaiff unrhyw effaith ar ddarpariaeth a chymorth gofal plant a fydd yn parhau trwy'r grant Gofal Plant y tu allan i'r ysgol.

## **Eiriolaeth**

Cydnabyddwn bwysigrwydd sicrhau bod gan blant a phobl ifanc lais a'n bod yn gwrando arnynt. Byddwn yn parhau i gefnogi gweithredu'r **Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc** a gweithredu'r **CCUHP yng Nghymru**.

Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi MEIC – y **Llinell Gymorth Genedlaethol** ynghylch **Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc** a byddwn yn cynyddu £0.2m ar y gyllideb Eiriolaeth yn 2014-15 a 2015-16 er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n cysylltu â'r llinell gymorth Eiriolaeth, Cyngor a Gwybodaeth. Byddwn hefyd yn cynnal gwerthusiad o MEIC er mwyn sicrhau ei fod mor effeithiol ag y gall fod o ran sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

Yn ogystal bydd y codiad yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r argymhellion a nodwyd gan y **Comisiynydd Plant** yn ei adroddiad ar eiriolaeth i blant a phobl ifanc.

## **8. Datblygu Cynaliadwy**

Mae cynaliadwyedd ein buddsoddiad sylweddol trwy'r Gyllideb Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn rhan annatod o'r gweithio aml-asiantaeth mwy effeithiol y mae'n ei yrru. Yn ein tro, byddwn yn parhau i ddefnyddio sylfeini tystiolaeth i wneud yr achos busnes o blaid buddsoddi cynnar ac i ddangos ffrwyth buddsoddi, gan sicrhau bod egwyddorion ac arferion ymyrraeth gynnar yn ennill eu plwyf. Mae rhaglen Dechrau'n Deg a'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn destun gwerthusiadau a gaiff eu cyhoeddi (fel cyfres o adroddiadau) ac a ddefnyddir i lywio eu datblygiad ymhellach.

**Jeff Cuthbert AM**  
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

**Vaughan Gething AM**  
**Y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi**

CHILDREN, YOUNG PEOPLE AND FAMILIES BUDGET (forming part of the CTP MEG)							ANNEX 1
REVENUE BUDGET - Departmental Expenditure Limit							
SPA	Actions	BEL Title	2013-14 Supplementary budget	2014-15 Indicative Plans Restated Final Budget	2014-15 Changes	2014-15 New Plans Draft Budget	2015-16 New Plans Draft Budget
Children, Young People and Families	Children, Young People and Families	Children's Commissioner	1,715	1,715	0	1,715	1,715
		Families First	47,658	47,658	-750	46,908	44,608
		Flying Start	62,994	72,994	-900	72,094	76,894
		Childcare & Play Strategies	3,016	3,016	0	3,016	2,716
		Support for Children's Rights	1,305	1,305	-500	805	405
		Advocacy	850	850	225	1,075	1,075
		<b>SPA/ACTION Total</b>	<b>117,538</b>	<b>127,538</b>	<b>-1,925</b>	<b>125,613</b>	<b>127,413</b>
		<b>Total Resource</b>	<b>117,538</b>	<b>127,538</b>	<b>-1,925</b>	<b>125,613</b>	<b>127,413</b>
CAPITAL BUDGET - Departmental Expenditure Limit							
SPA	Actions	BEL Title	2013-14 Supplementary budget	2014-15 Indicative Plans Restated Final Budget	2014-15 Changes	2014-15 New Plans Draft Budget	2015-16 New Plans Draft Budget
Communities and Tackling Poverty	Communities and Tackling Poverty	Flying Start	12,000	4,000	4,000	8,000	2,000
		<b>SPA/ACTION Total</b>	<b>12,000</b>	<b>4,000</b>	<b>4,000</b>	<b>8,000</b>	<b>2,000</b>
		<b>Total Capital</b>	<b>12,000</b>	<b>4,000</b>	<b>4,000</b>	<b>8,000</b>	<b>2,000</b>
		<b>Total DEL</b>	<b>129,538</b>	<b>131,538</b>	<b>2,075</b>	<b>133,613</b>	<b>129,413</b>

Resource tables = The baseline used for Resource DEL in 2014-15 is as at Final Budget 2013-14, restated to reflect Ministerial portfolio changes as announced by the First Minister in March and adjusted to reflect recurrent baseline adjustments included in the First Supplementary Budget 2013-14. These baseline adjustments are set out in Annex D of the Draft Budget narrative.

Capital tables = The baseline used for Capital DEL in 2014-15 is as at Final Budget 2013-14, restated to reflect Ministerial portfolio changes as announced by the First Minister in March.

## Papur 2

### Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

#### Cyllideb Ddrafft Addysg a Sgiliau 2014-15

##### Diben

1. Darparu papur tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y gyllideb Addysg a Sgiliau ar gyfer 2014-15 a diweddariadau ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

##### Yr Amserlen

2. Cyhoeddwyd y gyllideb ddrafft ar 8 Hydref 2013.

##### Cyllideb Ddrafft Addysg a Sgiliau 2014-15

3. Mae Cyllideb Ddrafft 2014-15 yn cynnig cynllun dwy flynedd ar gyfer buddsoddi yn y ddarpariaeth addysg a sgiliau yng Nghymru. Yn Nhabl 1 ceir trosolwg o'r gyllideb Addysg a Sgiliau arfaethedig neu'r 'Prif Grŵp Gwariant' (MEG). Hefyd, gellir gweld y newidiadau i'r gyllideb ddangosol ers cyhoeddi Cyllideb Derfynol 2013-14, i adlewyrchu newidiadau sylfaenol rheolaidd i Gyllideb Atodol Gyntaf 2013-14.

Tabl 1: Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau

	2013-14	2014-15	2014-15	2014-15	2015-16
	Cyllideb Atodol Mehefin 2013	Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Ailddatgan)	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft
	£000	£000	£000	£000	£000
DEL Adnoddau	1,658,658	1,696,489	-77,565	1,618,924	1,564,094
DEL Cyfalaf	202,134	153,834	0	153,834	143,834
<b>Cyfanswm DEL</b>	<b>1,860,792</b>	<b>1,850,323</b>	<b>-77,565</b>	<b>1,772,758</b>	<b>1,707,928</b>
Gwariant a Reolir yn Flynyddol	176,869	183,149	30,935	214,084	237,862
<b>Addysg a Sgiliau</b>	<b>2,037,661</b>	<b>2,033,472</b>	<b>-46,630</b>	<b>1,986,842</b>	<b>1,945,790</b>

4. O gymharu â'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2013-14, mae cyfanswm sydd wedi'i ddyrannu o'r DEL Adnoddau ar gyfer Addysg a Sgiliau wedi lleihau £77.6 miliwn neu 4.6%. Mae'r gostyngiad hwn yn cynnwys trosglwyddiad rheolaidd o £28.6 miliwn i'r Grant Cynnal Refeniw o fewn y Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol, ar gyfer y ddarpariaeth AAA ôl-16 mewn ysgolion prif ffrwd (£4.2 miliwn), ac ysgolion arbennig ôl-16 a lleoliadau AAA y tu allan

i'r sir (£24.2 miliwn). Y cynllun dangosol ar gyfer DEL Adnodd 2015-16 sy'n cael ei gyhoeddi am y tro cyntaf yw £1,564.1 miliwn.

5. Nid oes newid i'r gyllideb gyfalaf o'r cynlluniau blaenorol a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2013-14, sef £153.8 miliwn yn 2014-15. Mae hyn yn cynnwys y £10 miliwn ychwanegol a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2013-14 i helpu i ddarparu campws newydd ar gyfer Addysg Bellach ôl-16 yng Nghaerdydd. Y gyllideb gyfalaf ddangosol ar gyfer 2015-16 yw £143.8 miliwn.
6. Mae'r mwyafrif o'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn ymwneud â benthyciadau myfyrwyr, sy'n dibynnu ar y galw amdanynt ac sy'n sensitif i gyfraddau llog a ffactorau macro-economaidd eraill ac felly yn anodd i'w rhagweld. Cytunir y gyllideb hon gyda'r Trysorlys bob blwyddyn a chyllidir hi'n llawn. Mae'r gyllideb yn cynyddu £24.9 miliwn yn 2014-15, gyda chyllideb ddangosol o £231.9 miliwn ar gyfer 2015-16. Mae yna £6m pellach ar AME ar gyfer 2014-15 and 2015-16 sydd yn ymwneud ac addasiad phensiynau Gyrfa Cymru, a ddaeth yn is-gwmni sydd yn eiddo gyfan gwbl Llywodraeth Cymru o 1 Ebrill 2013.
7. Cyhoeddwyd y cynlluniau cyllideb ar lefel Camau Gweithredu ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau ar 8 Hydref. Er mwyn sicrhau tryloywder, darperir dadansoddiad yn Atodiad 1 o'r newidiadau i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau yn ôl Llinellau Gwariant y Gyllideb.

### **Cyd-destun y Gyllideb**

8. Mae'r gyllideb hon yn digwydd yng nghyd-destun y cyfyngiadau a osodwyd gan Lywodraeth y DU yn ei hadolygiadau diweddar o wariant. Mae hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'n hymrwymiad parhaus i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu a rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol. Mae'r holl benderfyniadau sy'n ein hwynebu'n rhai anodd. Nid oes atebion hawdd ac nid oes unrhyw ffordd i ni warchod gwasanaethau rhag effaith y toriadau gan Lywodraeth y DU a goblygiadau blaenoriaethu'r gwariant.
9. Rydym wedi cynnal adolygiad fesul llinell o gyllidebau i benderfynu sut y gellir rheoli'r gostyngiadau o £83.9 miliwn yn 2014-15 a £103.9 miliwn yn 2015-16. Er bod penderfyniadau anodd wedi gorfod cael eu gwneud, mae'r adolygiad wedi'i osod yng nghyd-destun y sylw parhaus ar ein hymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu, ac mae wedi'i lunio ar sail tair thema drawsbynciol ym maes cyflenwi, sef Swyddi a Thwf; Cyrhaeddiad Addysgol a Chefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig.
10. Mae cydraddoldeb wedi bod yn elfen ganolog wrth ddatblygu ein cynlluniau gwariant ac, fel yn y gorffennol, mae'r newidiadau sy'n deillio o'r gyllideb hon wedi'u hasesu yn erbyn eu heffaith ar bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig. Rydym hefyd wedi ystyried ein hymrwymadau o dan Gynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru.

11. Yn ogystal, mae ein cynlluniau gwariant wedi ystyried yr effaith ar dlodi, yr iaith Gymraeg, hawliau plant a chynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol prosiectau a rhaglenni. Rydym wedi sicrhau bod polisiau a rhaglenni yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd, drwy ystyried y buddsoddiad y gallwn ei wneud nawr er mwyn osgoi camau drutach yn y dyfodol.

## **Y Rhaglen Lywodraethu**

12. Mae gan yr Adran Addysg a Sgiliau bum amcan strategol sy'n cefnogi'r canlyniadau yn y Rhaglen Lywodraethu, ac mae ein gwariant wedi'i alinio i'r rhain:
- Codi safonau'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant, cyrhaeddiad a seilwaith ledled Cymru fel bod modd i bawb gyrraedd eu potensial;
  - Darparu gweithlu medrus gyda chyfleoedd da i bob dysgwyr gyfrannu at greu twf a swyddi;
  - Cefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau i wella lles drwy leihau anghydraddoldeb a chynyddu cyfranogiad;
  - Gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru; a
  - Bod yn adran sy'n perfformio'n dda ac yn gyflogwr delfrydol.
13. O ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol a'r gostyngiadau a wynebir ar hyn o bryd, mae'n hanfodol ein bod yn glir o ran ein blaenoriaethau, a bod penderfyniadau ynghylch gwariant yn cefnogi ein hamcanion. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn pennu'r canlyniadau yr ydym yn gweithio tuag atynt, ac mae'r penderfyniadau yn y gyllideb ddrafft hon yn sicrhau bod ein cynlluniau gwariant yn parhau'n gyson â'r nod o gyflawni ein hymrwymadau. Mae map o'n Camau tuag at Is-Ganlyniadau wedi'i gyhoeddi fel rhan o ddogfennau'r Gyllideb Ddrafft. Mae Adroddiad Blynyddol diweddaraf y Rhaglen Lywodraethu, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013, yn rhoi'r newyddion diweddaraf am y camau rydym yn eu cymryd i gefnogi ein blaenoriaethau. Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad yn erbyn ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu fel rhan o'r broses adrodd flynyddol er mwyn sicrhau bod canlyniadau cysylltiedig yn cael eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian.
14. Mae'r Adran Addysg a Sgiliau yn cyfrannu at nifer o feysydd yn y Rhaglen Lywodraethu, ond yn bennaf tuag at Dwf a Swyddi Cynaliadwy (pennod 1), Addysg (pennod 3) a Diwylliant a Threftadaeth Cymru (pennod 12). Ceir crynodeb isod o'r newidiadau i'r gyllideb ddrafft yn unol â'r Camau Gweithredu sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn, yn ogystal â'r costau a'r effaith gysylltiedig ar ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu.

## Cam Gweithredu Llythrennedd a Rhifedd

2013-14	2014-15	2014-15	2014-15	2015-16
Cyllideb Atodol Mehefin 2013	Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Wedi'i ailddatgan)	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft
£000	£000	£000	£000	£000
7,512	7,512	(476)	7,036	6,197

15. Mae'r gyllideb yn llai o £0.476m net yn 2014-15 a £1.315m net yn 2015-16, o'i gymharu â 2013-14. Mae'r gyllideb yn ariannu ystod o ymyriadau i gefnogi'r agenda ar gyfer gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd plant a phobl ifanc. Nid yw'r gostyngiad yn y cyllid yn golygu ein bod yn rhoi llai o sylw i'r blaenoriaethau hyn. Defnyddiwyd cyllid o'r Cam Gweithredu hwn eisoes i gefnogi datblygiad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2013 ac a fydd yn dod yn un o ofynion statudol y cwricwlwm o fis Medi 2013. Bydd hyn yn helpu i gyflawni ein nod o sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn gallu datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd rhagorol. Bydd y cynnydd o £3.9m yn 2014-15 yn y llinell wariant 'Cwricwlwm ac Asesu' ar gyfer y Rhaglen Gymorth Genedlaethol yn helpu i sicrhau bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol mewn ysgolion.

16. Mae cyllid yn parhau i gael ei neilltuo yn y gyllideb ddrafft hon i gefnogi ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno profion rhifedd a llythrennedd newydd, a ddechreuodd ym mis Mai 2013. Mae'r cyllid yn gostwng yn 2015-16 gan fod y rhan fwyaf o'r costau ar gyfer datblygu profion 2016 eisoes wedi'u diwallu. Er na fydd y profion darllen a rhifedd ynddynt eu hunain yn codi safonau, caiff y data a gesglir eu defnyddio i gynllunio'n effeithiol, i hunanwerthuso ac i dracio dysgwyr.

## Cam Gweithredu'r Cwricwlwm

2013-14	2014-15	2014-15	2014-15	2015-16
Cyllideb Atodol Mehefin 2013	Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Wedi'i ailddatgan)	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft
£000	£000	£000	£000	£000
125,060	125,060	(2,893)	122,167	116,056

17. Mae'r gyllideb yn llai o £2.9m net yn 2014-15 a £9m net yn 2015-16, o'i gymharu â 2013-14. Mae'r grant 14-19 wedi gostwng dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf, a bu modd gwneud gostyngiadau pellach o'r llinell wariant Dysgu 14-19 yn y Gyllideb Ddrafft hon wrth i'r polisi gael ei sefydlu ac wrth i'r trefniadau ar gyfer datblygu cwricwla lleol aeddfedu. Ni ragwelir y bydd y gostyngiadau arfaethedig yn cael effaith sylweddol ar ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ysgolion a cholegau Addysg Bellach (AB) ddarparu gofynion statudol y cwricwlwm lleol. Bydd



y blaenoriaethau ar gyfer cyllid grant yn y dyfodol, o fis Ebrill 2014, hefyd yn cael eu hystyried yng ngoleuni argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen 14-19 o'r Adolygiad o Ddarpariaeth Cydweithredol Lleol yng Nghyfnod Allweddol 4.

18. Er bod gostyngiadau rheolaidd wedi'u gwneud i gyllideb y Cyfnod Sylfaen, bydd oddeutu £1 miliwn yn cael ei chanfod o'r cyllid grant a ddarparwyd i'r awdurdodau lleol er mwyn sicrhau'r arbedion a geir wrth symud at weithio drwy gyfrwng consortia rhanbarthol. Mae'r £0.3m sy'n weddill yn gysylltiedig â throsglwyddo cyllid i'r Cam Gweithredu Cymraeg mewn Addysg er mwyn darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen. Yn sgil hyn, ni ddylai fod unrhyw effaith ar ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu a gwella sgiliau ymarferwyr ar gyfer darparu'r Cyfnod Sylfaen, ac rydym yn parhau'n ymrwymedig i'r polisi hwn a'r modd y mae'n ymdrin ag addysgu a dysgu.
19. Bydd yr asesiadau presennol ar ddiwedd cyfnodau, a datblygiad Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar sy'n cael ei ariannu drwy'r llinell wariant Cwricwlwm ac Asesu, hefyd yn caniatáu i ni dracio hynt plentyn ar draws y Cyfnod Sylfaen a nodi a yw'r deilliannau'n cael eu cyflawni.
20. I sicrhau bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael ei weithredu'n llwyddiannus, mae cyllid ychwanegol wedi'i ddarparu yn y Gyllideb Ddrafft hon i sicrhau adnoddau digonol ar gyfer y Rhaglen Gymorth Genedlaethol a fydd yn darparu cymorth ymarferol sydd wedi'i deilwra i anghenion ysgolion unigol. Yn sgil hyn, mae'r gyllideb ar gyfer y Cwricwlwm ac Asesu wedi cynyddu £3.9m yn 2014-15 o'i gymharu â'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd yn flaenorol.

### **Cam Gweithredu Addysgu ac Arweinyddiaeth**

2013-14	2014-15	2014-15	2014-15	2015-16
Cyllideb Atodol Mehefin 2013	Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Wedi'i ailddatgan)	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft
£000	£000	£000	£000	£000
19,849	20,049	(2,200)	17,849	17,849

21. Roedd lansio'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol o fis Medi 2012 ymlaen yn cefnogi ein hymrwymiad i godi safonau addysgu a gwella cyfleoedd gyrfa i athrawon. Hyd yn hyn mae 430 o athrawon newydd gymhwyso (ANG) wedi dechrau ar y rhaglen. Gellir cyflawni'r gostyngiad rheolaidd o £2.2m yn y Cam Gweithredu Addysgu ac Arweinyddiaeth yn ôl yr amcangyfrifon cyfredol o nifer yr athrawon newydd gymhwyso a fydd yn dilyn y rhaglen Meistr. Felly, ni ragwelir y bydd y gostyngiadau'n effeithio ar ein gallu i gyflawni'r ymrwymiad hwn yn y Rhaglen Lywodraethu, ac rydym yn parhau'n ymrwymedig i ariannu pob athro newydd gymhwyso sy'n dymuno cwblhau'r cymhwyster.

## Cam Gweithredu Cymwysterau

2013-14	2014-15	2014-15	2014-15	2015-16
Cyllideb Atodol Mehefin 2013	Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Wedi'i ailddatgan)	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft
£000	£000	£000	£000	£000
5,045	5,045	0	5,045	5,603

22. Mae'r Cam Gweithredu hwn yn ariannu Bagloriaeth Cymru, a'r broses o achredu cymwysterau a gweithredu'r Adolygiad o Gymwysterau. Rydym yn dechrau gweithredu argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau, a gyflwynodd pecyn cydlynol o newidiadau sy'n angenrheidiol i gyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i symleiddio'r system gymwysterau yng Nghymru. Sefydlwyd prosiect i greu un corff, sef 'Cymwysterau Cymru', i reoleiddio, cymeradwyo a sicrhau ansawdd pob cymhwyster yng Nghymru. Ceir allbynnau, canlyniadau a mesurau cyflawni ar gyfer pob un o'r 18 maes yng nghynllun cyflawni'r Adolygiad o Gymwysterau.

23. Lansiodd yr ymgynghoriad ar sefydlu Cymwysterau Cymru ar 1 Hydref, ac mae achos busnes wrthi'n cael ei baratoi sy'n ystyried opsiynau, strwythurau a chostau cysylltiedig. Mae'r gyllideb Cymwysterau'n cynyddu £0.6m yn 2015-16 er mwyn sefydlu'r corff newydd hwn. Caiff y lefel derfynol o gyllid ei phennu yn ystod 2014-15 a'i diwallu drwy ailflaenoriaethu yng nghyllideb ddrafft 2015-16 os bydd angen. Bydd y gyllideb yn sicrhau ein bod yn gallu gweithio gyda phartneriaid i ddarparu cymwysterau o ansawdd uchel y mae pobl yn rhoi gwerth arnynt, sy'n cynnwys TGAU, Safon UG a Safon Uwch diwygiedig a Bagloriaeth Cymru newydd a mwy trylwyr.

## Cam Gweithredu Addysg Ôl-16

2013-14	2014-15	2014-15	2014-15	2015-16
Cyllideb Atodol Mehefin 2013	Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Wedi'i ailddatgan)	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft
£000	£000	£000	£000	£000
578,805	583,006	(49,101)	533,905	536,693

24. Mae'r cam gweithredu hwn yn ariannu addysg ôl-16 mewn sefydliadau addysg bellach, chweched dosbarth ysgolion, dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion yn y gymuned, canolfannau Cymraeg i Oedolion a darpariaeth addysg bellach mewn sefydliadau addysg uwch a pholisïau cysylltiedig. Mae'r gyllideb yn llai o £44.9m net yn 2014-15 a £42.1m net yn 2015-16, o'i gymharu â 2013-14.

25. Mae hyn yn cynnwys gostyngiadau o £7.3m yn 2014-15 a £5.3m yn 2015-16 yn y gyllideb ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith. Mae'r rhaglen Barod am Waith (Camau at Waith gynt) yn debygol o ddod i ben ym mis Ebrill 2014 a bydd mentrau sy'n cael eu datblygu a'u hariannu drwy'r Cam Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau yn cymryd ei lle. Amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu ein hymrwymiad i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc ac i ddarparu mwy o gyfleoedd prentisiaeth i bobl ifanc ar draws Cymru. Mae darparu prentisiaethau o ansawdd uchel yn rhan sylfaenol o'n strategaeth i wella sgiliau gweithwyr yng Nghymru o bob oed. Cafwyd buddsoddiad ychwanegol i gefnogi prentisiaethau yng Nghymru yng Nghyllideb Derfynol 2013-14, ac mae'r buddsoddiad hwnnw o £20m yn parhau yn y gyllideb ddrafft hon ar gyfer 2014-15. Rydym bellach yn ymestyn y buddsoddiad ychwanegol hwn i 2015-16.

26. Mae'r gyllideb ar gyfer y ddarpariaeth Addysg Bellach yn gostwng £42.2m yn 2014-15 o'i gymharu â'r cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol. O'r gostyngiad hwn, mae £4.2m wedi cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer darpariaeth AAA ôl-19 mewn ysgolion prif ffrwd, sydd wedi'i grynhoi ym mharagraff 4. Rydym wedi blaenoriaethu'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed, a fydd yn cael ei diogelu. Felly, bydd effaith y gostyngiadau sy'n weddill yn effeithio ar y ddarpariaeth ôl-16 yn bennaf, sy'n cael ei ddarparu gan Sefydliadau Addysg Bellach a Chanolfannau Cymraeg i Oedolion fwyaf. Mae'r ddarpariaeth ôl-16 yn cyfrif am oddeutu £160m, o'r gyllideb gyfan, ac felly mae gostyngiad o £37 miliwn gyfwerth â gostyngiad o 23% yn y ddarpariaeth ôl-19.

### Cam Gweithredu Strwythurau Addysg (Trawsnewid)

2013-14	2014-15	2014-15	2014-15	2015-16
Cyllideb Atodol Mehefin 2013	Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Wedi'i ailddatgan)	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft
£000	£000	£000	£000	£000
2,943	2,943	(2,693)	250	0

27. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i agenda newid Addysg Bellach ac Uwch. Mae ein polisi trawsnewid wedi ysgogi a chefnogi ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i annog achosion pellach o uno sefydliadau addysg bellach, ac rydym wedi cyrraedd ein targed o ad-drefnu'r ddarpariaeth i 8-12 sefydliad addysg bellach flwyddyn ynghynt na'r disgwyl. O ganlyniad, rydym yn bwriadu lleihau'r gyllideb trawsnewid £2.7m o'i gymharu â'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd eisoes ar gyfer 2014-15 a £0.25m pellach o 2015-16. Mae cyllid o £0.25m yn cael ei gynnal yn 2014-15 ar gyfer y cyfraniad sy'n weddill ar gyfer proses uno Coleg Harlech/WEA y De.

### Cam Gweithredu Safonau Addysg (Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a Chefnogi Safonau Ysgolion)

2013-14	2014-15	2014-15	2014-15	2015-16
Cyllideb Atodol Mehefin 2013	Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Wedi'i ailddatgan)	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft
£000	£000	£000	£000	£000
34,350	37,284	(4,523)	32,761	34,261

28. Mae'r gyllideb yn gostwng £1.8m net yn 2014-15 a £0.089m net yn 2015-16, o'i gymharu â 2013-14. Mae llinell wariant y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion yn ariannu nifer o feysydd yn ogystal â'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, gan gynnwys y Grant Gwisg Ysgol, Grant Llywodraethwyr Cymru a'r cynllun peilot Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol. Mae'r cyllid ar gyfer y Grant Gwisg Ysgol yn parhau er mwyn darparu £105 i bob disgybl cymwys ar gyfer prynu gwisg ysgol. Bydd y gostyngiad yn y gyllideb yn arwain at ostyngiad o £0.7m yn y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion yn 2014-15, ond ystyrir hyn yng nghydestun y cynnydd diweddar o £4.8m yng nghyfanswm y grant o £24m yn 2012-13 i £28.8m yn 2014-15. Mae'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion yn parhau'n un o'n prif ffyrdd o ddarparu cymorth ariannol ar gyfer cyflawni ein tair blaenoriaeth genedlaethol, sef gwella safonau llythrennedd a rhifedd, a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae cyllid y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion yn canolbwyntio ar ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gynyddu'r swm a ddirprwyir gan awdurdodau lleol i ysgolion, gyda'r isafswm a ddirprwyir yn cynyddu o 75% i 80% ar gyfer 2014-15.

29. Cynllun peilot 18 mis a ddechreuodd yn 2013-14 yw'r prosiect Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol, a'i nod yw hyrwyddo a lledaenu arferion gorau mewn ysgolion ar draws Cymru. Bydd cyllid yn golygu bod modd parhau â'r ail gohort o ysgolion fel ag a gynlluniwyd. Fodd bynnag, bydd nifer yr ysgolion yn cael ei leihau o'i gymharu â'r nifer a oedd yn rhan o'r cohort cyntaf oherwydd gostyngiad o £0.8m yn y cyllid. Bwriedir cynnal gwerthusiad annibynnol o effaith y cynllun peilot, a fydd yn llywio ei ddatblygiad yn y dyfodol.

### Cam Gweithredu'r Grant Amddifadedd Disgyblion

2013-14	2014-15	2014-15	2014-15	2015-16
Cyllideb Atodol Mehefin 2013	Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Wedi'i ailddatgan)	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft
£000	£000	£000	£000	£000
36,780	38,246	33,000	71,246	34,246

30. Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2012, yn gyfle allweddol i ysgolion ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu er mwyn

lleihau anghydraddoldeb o ran cyrhaeddiad addysgol. £33.3m yw'r grant ar gyfer 2013-14, sydd wedi'i ddirprwyo'n llawn i'r ysgolion. Mae hyn yn gynydd ar lefel y grant yn 2012-13, sef £32.4, ar ôl ymestyn y meini prawf ar gyfer cael y grant i gynnwys plant sy'n derbyn gofal. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cydweithio â'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol i sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i gael yr effaith fwyaf, ar sail tystiolaeth gadarn.

31. Cafodd y Grant Amddifadedd Disgyblion ei greu am gyfnod o dair blynedd tan 2014-15, ond mae'r cyllid yn parhau yn 2015-16 yn y gyllideb ddrafft hon er mwyn cydnabod pwysigrwydd y grant i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol. Cynllwynid bod y gyllideb ar gyfer Grant Amddifadedd Disgyblion yn 2014-15 i'w ostwng £2m, oherwydd bod y nifer o ddisgyblion a oedd yn gymwys ar gyfer prydiau ysgol ddi-dâl yn llai na'r nifer amcanwyd llynedd. Modd bynnag, o ganlyniad o'r Cytundeb Cyllideb, sicrhawyd £35m a fydd yn galluogi ni i gynyddu'r cymorth fesul disgybl yn 2014-15 o £450 i £918.

### **Cam Gweithredu Systemau TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth**

2013-14	2014-15	2014-15	2014-15	2015-16
Cyllideb Atodol Mehefin 2013	Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol (Wedi'i ailddatgan)	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft
£000	£000	£000	£000	£000
7,423	7,423	5,558	12,981	6,951

